
*Ymddiriedolaeth Natur* **Gogledd Cymru**
**North Wales** *Wildlife Trust*

# Gwarchodfa Natur Cemlyn
*Canllaw ar gyfer Adnabod Morwenoliaid*

# Cemlyn Nature Reserve
*Tern Identification Guide*







**Yng Nghemlyn mae un o'r poblogaethau mwyaf o forwenoliaid yn y DU.**
Pwrpas y canllaw yma yw eich helpu i adnabod y prif rywogaethau yr ydych yn debygol o'u gweld yma yn ystod misoedd yr haf.

**Cemlyn Nature Reserve holds one of the largest tern colonies in the UK.**
This guide is designed to help identify the main species likely to be seen here in the summer months.


Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

## **Morwennol Gyffredin //** **Common Tern** *(Sterna hirundo)*




Hyd: 34-37cm (yn cynnwys cynffon 5-8cm)
Aderyn sy'n bwydo ar corbenwaig, llymrïaid a chramenogion drwy hofran uwch ben y môr ac yna plymio iddo i'w dal. Mae'r Morwenoliaid Cyffredin/y Gogledd yn tueddu i nythu mewn grwpiau mwy gwasgarog yng Nghemlyn – o amgylch ymylon noethach yr ynysoedd. Mae ganddi sawl cri, yn cynnwys *'cieri-cieri'*, *'ct-ct-ct'*, a larwm hirwyntog, *'criii-rrr'*.

Length: 34-37cm (inc. 5-8cm tail)
An opportunist feeder, taking sprats, sand eels and crustacea, which it hovers and dives for. Common and Arctic Terns tend to nest in more scattered groups at Cemlyn – often around the barer margins of the islands. Calls include *'kierri-kierri'*, *'kt-kt-kt'*, and drawn-out alarm, *'kreee-rrr'*.





## **Morwennol y Gogledd // Arctic Tern** *(Sterna paradisaea)*

yn llwytach oddi tanodd na'r Forwennol Gyffredin
greyer below than Common Tern

talcen serthach, mwy crwn
steeper rounded forehead




pig coch tywyll sy'n edrych yn finiog iawn
sharp looking dark red bill

coesau coch tywyll byr
short dark red legs

y gynffon yn ymestyn y tu hwnt i'r adenydd
tail extends beyond wings

Hyd: 33-39cm (yn cynnwys cynffon 7-11cm)
Yn debyg iawn i'r Forwennol Gyffredin, ond mae'n hedfan mewn ffordd nodweddiadol, yn ystwyth a nwyfus. Mae ymhlith yr adar sy'n teithio bellaf wrth fudo – o'i thiroedd gaeafu ger yr Antarctig i diroedd bwydo ger yr Arctig. Sawl cri, yn cynnwys *'pi-pi-pi'*, '*pri-i*', a rhyw ysgwyd, sych *'ct-ct-ct'*.

Length: 33-39cm (inc. 7-11cm tail)
Very similar in appearance to Common Tern, but buoyant, 'elastic' flight is characteristic. Has one of the longest migrations of any bird - from wintering grounds near the Antarctic to breeding grounds near the Arctic. Calls include piping *'pi-pi-pi'*, *'pree-eh'*, and dry, rattling *'kt-kt-kt'*.





plu hedfan lled dryloyw wrth edrych oddi tanynt
translucent primaries when seen from below

# **Morwennol Wridog** // **Roseate Tern** *(Sterna dougallii)*

y pig yn ddu i gyd yn y gwanwyn (hyd at ei hanner yn goch ar y gwaelod erbyn diwedd yr haf)


bill all black in spring (up to half red at base by late summer)

yr oleuaf o'r morwenoliaid

palest of the terns

y gynffon yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r adenydd

tail extends well beyond wings



coesau coch llachar hir


long bright red legs

gwrid coch oddi tanodd yn y gwanwyn

rosy flush below in Spring

Hyd: 33-38cm (yn cynnwys cynffon 8-11cm) Morwennol brinnaf Prydain ac arferai fagu yng Nghemlyn ar un adeg. Mae i'w gweld yn mynd heibio'r llecyn hwn o hyd, ar adegau. Mae'r Forwennol Wridog yn olau iawn gyda chynffon hir, ac mae'n hedfan yn gyflym fel cudull. Efallai y bydd yn cyhoeddi ei hun gyda'i chri nodweddiadol: *'shific'*.

Length: 33-38cm (inc. 8-11cm tail) A former breeder at Cemlyn, and Britain's rarest tern - still sometimes seen on passage. Pale and long-tailed, the Roseate has rapid, falcon-like flight, and may announce itself with its distinctive call: *'chivvick'.*






adenydd byrrach a chynffon hirach na'r Forwennol Gyffredin / Morwennol y Gogledd

shorter-winged and longer-tailed than Common or Arctic Tern

# **Morwennol Bigddu // Sandwich Tern** *(Sterna sandvicensis)*




Hyd: 37- 43cm (yn cynnwys cynffon 6-9cm)
Y forwennol fwyaf a'r un fwyaf niferus o blith y morwenoliaid sy'n magu yng Nghemlyn. Mae'n hedfan yn gyflym iawn i mewn ac allan o'r nythfa ac mae ganddi gri nodedig iawn: *'ceric'*. Mae'r Morwenoliaid Bigddu'n nythu mewn grwpiau mawr iawn, yn agos at Wylanod Benddu yn aml iawn.

Length: 37- 43cm (inc. 6-9cm tail)
The largest and most numerous of the terns breeding at Cemlyn. Rapid flight in and out of the colony, and distinctive call of *'kerrick'*. Sandwich Terns nest in dense groups, often close to Black-headed Gulls.





# Morwenoliaid Ifanc // Juvenile Terns



### Morwennol Gyffredin

Y pig yn oren oddi tanodd, plu eilradd tywyll ar yr adenydd, browngoch ar y cefn a'r talcen pan maent newydd eu geni.

### Common Tern

Orange on base of bill, dark secondary coverts on wing, and gingery brown on back and forehead when fresh.




### Morwennol y Gogledd

Yn oleuach na'r Morwenoliaid Cyffredin a'r cap tywyll yn ymestyn yn is na'r llygad. Mwy o wyn ar y talcen a'r pig yn troi'n dywyll.

### Arctic Tern

Paler than Common Terns, dark cap extends below eye. More white on forehead, and bill becomes dark.



### Morwennol Wridog

Fel y Forwennol Bigddu pan yn ifanc, ond yn llai. Pig du i gyd.

### Roseate Tern

Like a smaller Sandwich Tern juvenile. All black bill.



### Morwennol Bigddu

Patrwm cennog ar y cefn a chap du i gyd ar y pen.

### Sandwich Tern

Scaly pattern on back and has an all-dark cap.

## Morwenoliaid Eraill (Oedolyn)


Mae rhywogaethau eraill o forwenoliaid yn dod i Gemlyn weithiau felly mae'n rhaid wrth lygad craff – efallai fod rhywbeth prin iawn ar yr ynysoedd.

## Other Terns (Adult)

Cemlyn is sometimes visited by other tern species, so have a good look - there may be something rare on the islands.




**Morwennol Fechan // Little Tern**
*(Sterna albifrons)*




**Corswennol Ddu // Black Tern**
*(Chlidonias niger)*

# Rhywogaethau Eraill // Other species


## Gwylan Benddu // Black-headed Gull
*(Larus ridibundus)*



Ifanc
Juvenile



Oedolyn
Adult



Yn llai nwyfus wrth hedfan ac yn llai hirfain na'r morwenoliaid, gyda chynffon fer heb fforch a choesau hirach. Mae gan yr oedolion gwcwll brown tywyll yn ystod yr haf. Mae ymyl gwyn i'r adenydd a llwyd tywyll o dan flaenau'r adenydd yn nodweddiadol. Mae eu cri yn sain *'creearr'* aflafar.

Less buoyant flight, and less elongate than terns, with short, un-forked tail and longer legs. Summer adults have a dark brown hood. White leading edge to the wing and dark grey under the wingtips are characteristic.
Call a raucous screech: *'kreearr'*


## Gwylan Môr y Canoldir // Mediterranean Gull
*(Larus melanocephalus)*



Anaeddfed
Immature



Oedolyn
Adult



Mae'r wylan brin hon wedi magu yng Nghemlyn yn ddiweddar. Ychydig yn fwy na'r Wylan Benddu, ac yn fwy byrdew, gyda phig mwy trwchus yn troi am i lawr. Mae pen yr oedolion yn ddu i gyd yn ystod yr haf ac mae blaenau'r adenydd yn wyn i gyd. Mae eu cri yn sain *'ieea!'* trwynol.

This rare gull has recently bred at Cemlyn. Slightly larger than Black-headed Gull with a stockier build, and thicker 'drooping' bill. Summer adults have pure black head and all-white wingtips.
Call a nasal *'yeah!*






## Lleoliad a mynediad

Gwelir y warchodfa ar arfordir gogleddol Ynys Môn, ryw ddwy filltir i'r gorllewin o Orsaf Ynni Niwclear Yr Wylfa. Mae arwyddion ar ei chyfer o'r A5025 yn Nhregele. Er bod y ffyrdd sy'n arwain i'r safle'n gul, ceir dau faes parcio mawr gerllaw'r warchodfa.
OS 1:50,000 Sheet 114 ac Explorer 262
Cyf. Grid: SH331932

## Location and access

The reserve is on the north coast of Anglesey, about two miles west of Wylfa Nuclear Power Station and sign-posted from the A5025 at Tregele. Although the roads to the site are narrow, there are two large car parks adjacent to the reserve.
OS 1:50,000 Sheet 114 and Explorer 262
Grid ref. SH331932


**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**
376 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
LL57 1YE
Ffôn: 01248 351541
Ebost: nwwt@wildlifetrustswales.org
Elusen Corfrestredig: 230772
Cwmni Cyfyngedig: 773995

**North Wales Wildlife Trust**
376 High Street
Bangor
Gwynedd
LL57 1YE
Telephone: 01248 351541
email: nwwt@wildlifetrustswales.org
Registered Charity No. 230772
Company No. 773995


**www.northwaleswildlifetrust.org.uk**


**antenna creative** 07772 629063
Lluniau gan // Illustrations by Ben Stammers
Papur wedi'i ailgylchu 100% recycled paper

CAM+
Cynllun Arbrofol Môn
A Sustainable Development Fund for Anglesey

Cymunedau a Natur
Communities and Nature